# Dewch yn Arolygydd Cymheiriaid yn y sector Gwaith Ieuenctid

Yn barod i ddechrau eich cais? Cliciwch yma

## Ynglŷn â'r rôl

Rydym yn chwilio am bobl sydd â phrofiad perthnasol o uwch arweinyddiaeth mewn gwaith ieuenctid i fod yn Arolygwyr Cymheiriaid.

Yn Estyn, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a wna arolygwyr cymheiriaid i'n gwaith. Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn rhan allweddol o'n timau arolygu. Rydym yn gwybod hefyd fod arolygwyr cymheiriaid yn elwa'n fawr yn broffesiynol ar yr hyfforddiant rydym yn ei gynnig a chyfleoedd i ymweld ag ysgolion eraill yn ystod arolygiadau.

Wedi i chi gymhwyso, byddwch yn defnyddio eich gwybodaeth a medrau i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel arsylwi gweithgareddau, a siarad â dysgwyr a staff, i gasglu tystiolaeth uniongyrchol o fywyd a gwaith y darparwr gwaith ieuenctid. Mae gweithio gydag Estyn yn gyfle gwych i ddefnyddio eich medrau presennol, datblygu medrau newydd a gweld arfer effeithiol darparwyr eraill.

## Cymhwysedd

Byddwch yn gallu arolygu drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg, a :

- meddu ar gymhwyster proffesiynol mewn Gwaith Ieuenctid;
- fod wedi'i gofrestru gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA);
- gydag o leiaf 3 blynedd o brofiad mewn sefydliad Gwaith Ieuenctid/maes Gwaith Ieuenctid;
- gyda phrofiad o Waith Ieuenctid mewn rôl o safon.

## Dysgu proffesiynol

Bydd y dysgu proffesiynol ar gael yn Gymraeg a Saesneg a chynhelir mewn person,28-30 Ebrill 2026 yng Nghaerdydd..

Mae'r digwyddiad hyfforddiant cychwynnol yn rhad ac am ddim a byddwn yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth a llety (os ydych yn gymwys), yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth.

## Cymeradwyaeth

Er mwyn mynychu hyfforddiant ac, os yn llwyddiannus, mynychu arolygiadau, mae'n rhaid i ni derbyn cymeradwyaeth gan eich cyflogwr. Rhaid derbyn hwn cyn yr hyfforddiant neu ni fyddwch yn gallu mynychu.  Bydd e-bost yn mynd at y cyswllt rydych chi wedi'i rannu yn eich cais.

## Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

I fynychu arolygiad, mae'n rhaid i chi gwblhau'r asesiadau'n llwyddiannus a chael tystysgrif Uwch ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Rhaid i'r dystysgrif fod yn llai na thair blynedd oed ac yn cynnwys y categori Gweithlu Plant. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich tystysgrif, bydd ein tîm Cynllunio ac Ymestyn yn cysylltu â chi gyda manylion yr arolygiad asesedig.

Rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais am dystysgrif GDG cyn gynted ag y byddwch wedi pasio'r hyfforddiant wyneb yn wyneb – gall gymryd hyd at chwe wythnos i'r dystysgrif gael ei chyhoeddi. Unwaith y bydd gennych eich GDG, neu os oes un gennych eisoes, anfonwch gopi wedi'i sganio at **dbschecks@estyn.gov.wales** a chynnwys enw a dyddiad yr hyfforddiant fel y gallwn wirio ei fod yn bodloni ein gofynion. **Ni fyddwch yn cael eich defnyddio nac yn cael eich ystyried fel eich bod wedi pasio'r hyfforddiant yn llawn nes bod eich tystysgrif wedi'i derbyn.**

## Lleoli

Rydym fel arfer yn lleoli Arolygwyr Cymheiriaid tuag unwaith bob dwy flynedd. Caiff ychydig o Arolygwyr Cymheiriaid eu lleoli'n amlach. Pan fyddwch yn cymryd rhan mewn arolygiad, byddwn yn talu cyfraniad ar gyfradd unffurf i'ch ysgol am athro llanw. Byddwn hefyd yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob Arolygydd Cymheiriaid i gymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru yn ystod tymor yr haf; rhaid i chi gymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn i barhau'n Arolygydd Cymheiriaid. Ni chodir tâl am yr hyfforddiant, ond ni allwn dalu am athrawon llanw na chostau teithio a chynhaliaeth. Rhaid bod gennych tystysgrif GDG dilys i fynychu.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein:** https://www.smartsurvey.co.uk/s/3U5S7A/
**Dyddiad cau:** Hanner dydd ar 4 Mawrth 2026

Mae unrhyw feysydd sydd wedi'u marcio â * yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os nad ydynt yn berthnasol i chi, rhowch 'Ddim yn berthnasol'.

## Manylion cyswllt

Mae’r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch am y rôl a’r broses ymgeisio, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae pob croeso i chi anfon neges e-bost atom yn digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffonio ar 02920 44 6510.

Os hoffech trafod y rolau sydd wedi’u hamlinellu uchod cyn gwneud cais, cysylltwch â Gavin Gibbs, AEM – gavin.gibbs@estyn.llyw.cymru.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.